Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Ionawr 2026

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 16 Hydref 2024. Fe'i noddir gan Kim Leadbeater AS. Mae'n Fil Aelod Preifat.[2]

**2.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

> "To *allow adults who are terminally ill, subject to safeguards and protections, to request and be provided with assistance to end their own life; and for connected purposes.*"[3]

**3.** Ar adeg ei gyflwyno, roedd gan y Bil 43 o gymalau a 6 Atodlen.

**4.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 20 Mehefin 2025 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Mehefin 2025.[4] Ar yr adeg y gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad roedd y Bil yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd un o Filiau perthnasol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 9 Ebrill 2025, gosododd Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[5]

---

[1] Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), fel y'i cyflwynwyd (Bil 12)
[2] Gweler: Private Members' Bill ballot to be drawn on Thursday 5 September, 3 Medi 2024
[3] Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1
[4] Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin (Bil Tŷ'r Arglwyddi 112)
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), 9 Ebrill 2025

**7.** Ar 4 Gorffennaf 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[6]

**8.** Yn y memoranda hyn, roedd Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad ar gyfer rhai cymalau yn y Bil fel y nodir ym mharagraffau 9 a 10 isod.

**9.** Yn y Memorandwm (mewn perthynas â'r Bil fel y'i diwygiwyd ym Mhwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin)[7] roedd cydsyniad yn cael ei geisio ar gyfer y canlynol:

- cymal 37 – Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf;
- cymalau 39(1), (2), (5) a (6) – Gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol: Cymru;[8]
- cymal 45 – Monitro gan y Comisiynydd;[9]
- cymal 47(4) – Darparu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg;
- cymalau 50(1), (2), (5) a (6) – Rheoliadau;[10]
- cymalau 54(6), (8) a (9) – Cychwyn.[11]

**10.** Ym Memorandwm Rhif 2 (ynghylch gwelliannau a dderbyniwyd i'r Bil yn ystod Cyfnod yr Adroddiad yn Nhŷ'r Cyffredin)[12], nodwyd bod gwelliannau wedi hepgor cymalau 37, 47 a 54(6) y ceisiwyd cydsyniad ar eu cyfer yn flaenorol yn y Memorandwm. O ganlyniad, ceisiodd Memorandwm Rhif 2 gydsyniad ar gyfer tri chymal newydd:

- cymal 40 – Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf;
- cymal 51 – Darpariaeth ynghylch y Gymraeg;
- cymal 58(5) – ynglŷn â chychwyn.

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), 4 Gorffennaf 2025
[7] Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus (Bil 212)
[8] Bil 112 Tŷ'r Arglwyddi (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin), cymal 42
[9] Bil 112 Tŷ'r Arglwyddi (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin), cymal 49
[10] Bil 112 Tŷ'r Arglwyddi (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin), cymal 54
[11] Bil 112 Tŷ'r Arglwyddi (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin), cymal 58
[12] Bil 112 Tŷ'r Arglwyddi (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin)

**11.** Fe wnaethom adrodd ar y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 ar 7 Hydref 2025 (ein hadroddiad cyntaf).[13]

**12.** Mynegodd ein hadroddiad cyntaf y farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 31, 34 i 40 a 42 i 59 o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin).[14] Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar 18 Tachwedd 2025.[15] Yn yr ymateb hwnnw, gwrthododd yr Ysgrifennydd Cabinet ein barn, gan ddatgan fel a ganlyn:

> "*… daeth ein hasesiad o dan Reol Sefydlog 29 i'r casgliad mai dim ond mewn perthynas â darpariaethau yng nghymalau 40, 42, 49, 51, 54 a 58 y mae angen cydsyniad y Senedd. Ar gyfer y cymalau eraill y cyfeiriodd y pwyllgor atynt, daeth ein hasesiad i'r casgliad na fodlonwyd y prawf yn Rheol Sefydlog 29.*
>
> *Fel yr eglurwyd yn flaenorol, ni allwn ddarparu rhagor o fanylion ar yr asesiad hwn heb ildio braint broffesiynol gyfreithiol…*".[16]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

**13.** Ar 23 Rhagfyr 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[17]

**14.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi fel a ganlyn:

> "*Rhwng 14 Tachwedd 2025 ac 18 Rhagfyr 2025, mae cyfanswm o 1,159 o welliannau wedi'u cyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi, a disgwylir i'r nifer hwn gynyddu wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy'r Cyfnod Pwyllgor. Hyd at 16 Rhagfyr 2025, mae Noddwr y Bil wedi cyflwyno 36 o welliannau. O blith y rhain,*

---

[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), Hydref 2025
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), Hydref 2025, argymhelliad 1
[15] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2025
[16] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2025, ymateb i argymhelliad 1. Gweler hefyd Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet, 19 Mai 2025 a Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet, 30 Mehefin 2025
[17] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), 23 Rhagfyr 2025

*nodwyd bod 5 o welliannau yn rhoi sylw i faterion datganoledig.* (...)

*Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn ar adeg pan fo'r gwelliannau a nodwyd uchod wedi'u cyflwyno gan Noddwr y Bil ond na chytunwyd arnynt yn ffurfiol gan Dŷ'r Arglwyddi eto. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer eithriadol o uchel o welliannau sy'n cael eu hystyried ac amserlen estynedig y Cyfnod Pwyllgor. Y bwriad wrth osod y Memorandwm ar y cam hwn yw sicrhau bod Senedd Cymru yn cael cyfle ystyrlon i graffu ar y gwelliannau arfaethedig sydd fwyaf tebygol o ymwneud â materion datganoledig, ac i gynnal dadl arnynt. Y bwriad hefyd yw lliniaru'r risg na ellid ceisio cydsyniad o fewn yr amserlen seneddol sydd ar gael pe bai'r Memorandwm yn cael ei ohirio tan gyfnodau diweddarach y Bil."*

*Disgrifir y gwelliannau sy'n gwneud darpariaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ym mharagraffau 13 i 16 isod."*[18]

**15.** O ran taith y Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi, mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi fel a ganlyn:

"*Dechreuodd y Cyfnod Pwyllgor ar 14 Tachwedd 2025 ac ar hyn o bryd disgwylir iddo ddod i ben ar 24 Ebrill 2026. Rhagwelir y bydd ei Gyfnod Adrodd a'i Drydydd Darlleniad yn dechrau yn fuan wedi hynny.*"[19]

**16.** Mae paragraffau 13 i 16 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi crynodeb Llywodraeth Cymru o bum gwelliant, i bedwar cymal o'r Bil (fel y'u dygwyd o Dŷ'r Cyffredin), y maent yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Mae'r rheini fel a ganlyn:

- Mae Cymal 47 (Adrodd ar Weithredu'r Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adrodd ynghylch gweithredu'r Ddeddf. Mae gwelliant 784 yn mewnosod is-adran newydd (3A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth adrodd o dan yr adran hon.

[18] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 4 i 6
[19] Memorandwm Rhif 3, paragraff 11

- Mae Cymal 49 (Monitro gan y Comisiynydd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd Marw â Chymorth fonitro gweithrediad y Ddeddf, ac adrodd yn flynyddol arni. Mae gwelliant 804 i'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau blynyddol gynnwys adroddiad diweddaraf y Bwrdd Cynghori ar Anabledd a sefydlwyd gan y Bil. Mae gwelliant 809 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Bwrdd Cynghori ar Anabledd wrth lunio adroddiad blynyddol.

- Mae Cymal 50 (Adolygu'r Ddeddf hon) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu, ac adrodd ar weithrediad y Ddeddf 6 blynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Mae gwelliant 824 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth gynnal yr adolygiad hwnnw.

- Mae Cymal 55 (Dyletswydd i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau) yn diwygio pŵer arfaethedig Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yng nghymal 42, i wneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau marw â chymorth gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r gwelliant (heb ei rifo ar yr adeg y gosodwyd Memorandwm Rhif 3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau y maent yn eu hystyried yn briodol cyn arfer y pŵer hwnnw.

**17.** O ran safbwynt Llywodraeth y DU, mae paragraff 17 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi fel a ganlyn:

> "*Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei safbwynt ynghylch a yw'n credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn fel y'i diwygiwyd yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, mae wedi cydnabod bod rhai cymalau yn torri ar draws materion datganoledig. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn a byddaf yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ac i asesu'r sefyllfa hon wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy weddill y cyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi.*"

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**18.** Trafodwyd Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 12 Ionawr 2025.[20] Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn mynegi pryder

[20] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, 12 Ionawr 2026

ynghylch yr amserlen debygol ar gyfer gwaith craffu, gan ofyn am roi digon o amser inni i gynnal gwaith craffu effeithiol ar Femorandwm Rhif 3, a fyddai'n golygu cynnal y ddadl cynnig cydsyniad yn hwyrach na'r hyn a drefnwyd, sef 20 Ionawr 2026.[21]

**19.** Ar 13 Ionawr 2026, gosododd y Pwyllgor Busnes ddyddiad cau ar gyfer adrodd o 20 Ionawr 2026 ar gyfer Memorandwm Rhif 3.[22] Fe wnaethom ystyried ein hadroddiad a chytuno arno, yn ein cyfarfod ar 19 Ionawr 2026.[23]

**20.** Wedi hynny, gohiriodd Llywodraeth Cymru'r ddadl ar y cynnig cydsyniad i 24 Chwefror 2026 a gosododd y Pwyllgor Busnes ddyddiad cau diwygiedig ar gyfer adrodd o 23 Chwefror 2026 ar gyfer Memorandwm Rhif 3.[24] Fe wnaethon ni ystyried a chytuno fersiwn ddiwygiedig o ein hadroddiad ar 26 Ionawr 2026.[25]

## Ein barn ni

**21.** Ar ôl ystyried y Memorandwm a'r Bil, ein hasesiad oedd bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y rhan fwyaf o'r cymalau yn y Bil. Pan ofynnwyd i Lywodraeth Cymru mewn gohebiaeth pam nad oedd cydsyniad yn cael ei geisio ar gyfer y cymalau hyn, dywedwyd wrthym fod ei hasesiad wedi pennu nad oedd y prawf yn Rheol Sefydlog 29 wedi'i fodloni, ond na allai ddatgelu manylion ei hasesiad "gan y byddai gwneud hynny yn hepgor braint broffesiynol gyfreithiol."[26] Mynegodd ein hadroddiad cyntaf syndod at yr ymateb hwn, gan ddatgan fel a ganlyn:

> "*Mae iechyd wedi'i ddatganoli at ei gilydd i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn yn y Bil yn rhoi sylw i fater datganoledig, sef iechyd, oherwydd bod darpariaethau'r Bil yn gosod dyletswyddau ar y gweithwyr iechyd proffesiynol a fydd yn cynorthwyo unigolyn i ddod â'i fywyd i ben drwy roi gofal meddygol, a hefyd mewn perthynas â llawer o'r mesurau diogelu hollbwysig sy'n rhan o'r ffordd y darperir y gofal hwnnw er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Felly,*

[21] Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 12 Ionawr 2026
[22] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), 13 Ionawr 2026.
[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, 19 Ionawr 2026
[24] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), 20 Ionawr 2026
[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, 26 Ionawr 2026
[26] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet, 19 Mai 2025 a Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet, 30 Mehefin 2025

*rydym yn synnu nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth am ddehongliad gwahanol y llywodraeth heb beryglu braint broffesiynol gyfreithiol. Rydym yn rhagweld y byddai hynny o gymorth i'r Senedd wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ac y byddai'n gyson â'r ffordd y ymdriniwyd â memoranda cydsyniad deddfwriaethol rhwng y llywodraeth a'r Senedd yn y gorffennol, sy'n anochel yn ymwneud â chwestiynau ynghylch cymhwysedd.*

*Yn niffyg unrhyw dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru i'r gwrthwyneb, credwn fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau yn y Bil sy'n berthnasol i leoliadau'r GIG a'r fframwaith rheoleiddio y gall person gael cymorth yn gyfreithlon i ddod â'i fywyd ei hun i ben o'i fewn (mae hyn yn cynnwys cymalau newydd a ychwanegwyd at y Bil drwy welliannau yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin).*

*Argymhelliad 1. Rydym o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 31, 34 i 40 a 42 i 59 o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin).*"[27]

**22.** Rydym yn siomedig, mewn ymateb i'n hadroddiad cyntaf, fod Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd ei barn annefnyddiol, sef na all ddarparu rhagor o wybodaeth am ei hasesiad heb hepgor braint broffesiynol gyfreithiol.

**23.** Hyd yn hyn, rydym wedi ystyried 188 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol ac atodol sy'n ymwneud â 72 o Filiau Llywodraeth y DU ac nid ydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryderon yn flaenorol ynghylch braint broffesiynol gyfreithiol wrth ddarparu gwybodaeth am eu hasesiad o ddarpariaethau Biliau'r DU sy'n ymwneud â materion datganoledig.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pam mae pryderon ynghylch braint broffesiynol gyfreithiol yn atal gwybodaeth am asesiad Llywodraeth Cymru rhag cael ei darparu mewn perthynas ag ystyried y memoranda hyn, ond nid y 185 o femoranda sy'n ymwneud â 71 o Filiau eraill Llywodraeth y DU a ystyriwyd hyd yma gan y Pwyllgor.

**24.** Mae ein barn yn parhau fel y'i nodir yn argymhelliad 1 o'n hadroddiad cyntaf.

---

[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), Hydref 2025, paragraffau 32 i 33

**25.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 3.

**26.** Nodwn, hefyd, safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 3, bod y gwelliannau i gymalau 47, 49, 50 a 55 o'r Bil (fel y'u dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn gofyn am gydsyniad y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**27.** Gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am amserlen hwy ar gyfer adrodd, er mwyn ein galluogi i geisio rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch Memorandwm Rhif 3. Yn benodol, roeddem eisiau gofyn am wybodaeth am welliannau arfaethedig eraill i'r Bil sy'n debygol o roi sylw i faterion datganoledig ond nad ydynt yn cael sylw ym Memorandwm Rhif 3, naill ai'n uniongyrchol neu drwy naratif esboniadol priodol. Yn benodol, byddem hefyd wedi hoffi pe bai Llywodraeth Cymru wedi egluro pam ei bod yn ceisio cydsyniad ar gyfer rhai gwelliannau i gymalau 47, 49, 50 a 55 ond nid ar gyfer gwelliannau eraill a gyflwynwyd mewn perthynas â'r un cymalau hynny. Mae'n ymddangos i'r Pwyllgor, os derbynnir unrhyw un o'r gwelliannau eraill hynny yn Senedd y DU, y gellir newid sylwedd y cymalau hyn, o'i gymharu â'r modd y maent wedi cael eu hasesu gan Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor hwn.

**28.** Nid yw'r amser sydd ar gael ar gyfer adrodd wedi ein galluogi i ysgrifennu i ofyn am farn Llywodraeth Cymru ar y materion hyn, felly mae ein sylwadau isod, ac argymhelliad 13, yn ceisio darparu mecanwaith ar gyfer darparu'r eglurder hwnnw cyn i'r ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ddigwydd.

**29.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â phum gwelliant i'r Bil, nad oeddent wedi cael eu hystyried na bod yn destun pleidlais yn Nhŷ'r Arglwyddi ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gynghori o ran y canlynol:

i. a yw o'r farn y bydd y pum gwelliant sy'n destun Memorandwm Rhif 3 wedi cael eu hystyried ac wedi bod yn destun pleidlais cyn i'r cynnig cydsyniad gael ei drafod ar 24 Chwefror; ac

ii. os na, dylai esbonio pam, yn ei farn ef, ei bod yn briodol cynnal dadl ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â gwelliannau i gymalau yn y Bil cyn i benderfyniad o ran a ddylid cytuno ar y gwelliannau hynny gael ei wneud yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**30.** Mae Memorandwm Rhif 3 hefyd yn cyfeirio at 1,154 o welliannau pellach a gyflwynwyd i'r Bil. Fodd bynnag, nid yw Memorandwm Rhif 3 yn cadarnhau pa asesiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud mewn perthynas ag unrhyw un o'r 1,154 o welliannau hyn, nac a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai unrhyw un o'r gwelliannau hyn wneud darpariaeth ynghylch materion datganoledig. Ar ben hynny, ni ddarperir unrhyw naratif am y gwelliannau hyn ym Memorandwm Rhif 3 ac, felly, nid oes unrhyw esboniad ynghylch a yw unrhyw un o'r 1,154 o welliannau hynny yn debygol o fod angen cydsyniad y Senedd, neu a fyddant yn gofyn am hynny os cânt eu pasio.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro rhesymeg Llywodraeth Cymru dros ddethol dim ond y pum gwelliant o 1,159 a gyflwynwyd i'w cynnwys ym Memorandwm Rhif 3.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad ynghylch a yw'r 1,154 o welliannau eraill a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi rhwng 14 Tachwedd 2025 ac 18 Rhagfyr 2025 yn ystyried materion datganoledig ac, os nad ydynt, nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro beth fyddai'r goblygiadau pe bai unrhyw un o'r 1,154 o welliannau hynny yn ymwneud â materion datganoledig ac yn cael eu pasio'n gyfraith heb gael cydsyniad y Senedd.

**31.** Mae'r bedwaredd rhestr o welliannau wedi'u didoli ar gyfer y Cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi[28] yn dangos bod 62 o welliannau eraill yn cael eu cynnig i'r pedwar cymal sy'n destun Memorandwm Rhif 3, sef cymalau 47, 49, 50 a 55.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud asesiad ynghylch a yw'r 62 gwelliant arall a gyflwynwyd i gymalau 47, 49, 50 a 55 o'r Bil (fel y'u dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn ystyried materion datganoledig ac, os nad ydynt, nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

**Argymhelliad 8.** Os, ym marn Llywodraeth Cymru, mae unrhyw un o'r 62 gwelliant ychwanegol hyn i gymalau 47, 49, 50 a 55 o'r Bil yn ystyried materion datganoledig, ac y'u derbynnir wedi hynny, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio'r canlynol:

[28] Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), y bedwaredd rhestr o welliannau wedi'u didoli, i'w cynnig mewn Pwyllgor o'r Tŷ Cyfan, 10 Rhagfyr 2025

i. effaith y penderfyniad i dderbyn y gwelliannau hynny ar y cydsyniad a geisir ar gyfer yr un cymalau hynny drwy Femorandwm Rhif 3;

ii. beth fyddai'r canlyniad pe bai cydsyniad yn cael ei roi i'r gwelliannau i gymalau y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 3 ond y gwrthodir y gwelliannau hynny wedi hynny, tra bod gwelliannau eraill i'r cymalau hynny sy'n ymwneud â materion datganoledig, ond nad ydynt yn destun Memorandwm Rhif 3, yn cael eu derbyn;

iii. O dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mhwynt bwled ii, yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai'r Senedd wedi cydsynio iddo.

**32.** Rydym yn gwerthfawrogi bod yr amserlen ar gyfer gwaith craffu ar y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi, a'r ffaith ei bod yn gorgyffwrdd â diwedd y Chweched Senedd a'r diddymiad, yn ogystal â'r ffaith ei fod yn Fil Aelod Preifat, yn peri problem o ran y broses o ymdrin â materion sy'n ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol.

**33.** Ein pryder yw sicrhau bod y Senedd yn glir ynghylch yr hyn y gofynnir iddi gydsynio iddo, a goblygiadau'r penderfyniad hwnnw.

**Argymhelliad 9.** Os nad yw wedi'i gynnwys yn benodol yn y cynnig, er mwyn sicrhau bod y Senedd yn glir ynghylch yr hyn y gofynnir iddi gydsynio iddo, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet restru'r cymalau, a'r gwelliannau i gymalau yn y Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) y ceisir cydsyniad ar eu cyfer.

**34.** Rydym o'r farn ei bod yn bwysig tynnu sylw at ychydig o bwyntiau allweddol sy'n berthnasol i'r ddadl ar y cynnig hwn, a'u dwyn i sylw'r Senedd.

**35.** Mae'r Bil yn ceisio diwygio *Deddf Hunanladdiad 1961*. Mae hwn yn fater a gedwir yn ôl ac, o ganlyniad, ni allai'r Senedd ei hun basio cyfraith ar farw â chymorth fel y nodir yn y Bil.

**36.** Fodd bynnag, mae cymal 42 o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin)[29] yn darparu y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau marw â chymorth gwirfoddol yng Nghymru, ac mae adran 58(5) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn cymal 42 (er, mae'n debyg y byddai'r mater hwn yn fater i Lywodraeth a Senedd nesaf Cymru, o ystyried pa mor agos yw'r etholiad cyffredinol nesaf yng Nghymru).

[29] Adran 39 yn flaenorol yn y Memorandwm ac fel y'i cynhwysir ym Mil 212 (fel y'i diwygiwyd gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin)

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro beth fyddai'r goblygiadau i farw â chymorth yng Nghymru pe bai'r Senedd yn cydsynio yn unol â'r memoranda, a phe na bai adran 42 o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin ac os caiff ei ddeddfu) yn cael ei gychwyn wedi hynny gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro beth fyddai'r goblygiadau i farw â chymorth yng Nghymru pe bai'r Senedd yn gwrthod cydsynio i'r Bil yn unol â'r memoranda.

**Argymhelliad 12.** Wrth ymateb i argymhellion 10 ac 11, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu esboniadau drwy gyfeirio at wasanaethau'r GIG a gwasanaethau nad ydynt yn rhan o'r GIG.

**Argymhelliad 13.** Dylid darparu ymatebion i'r argymhellion hyn i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na dydd Mercher 11 Chwefror 2026.